# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 25.03.11

**Yn bresennol:**

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, O.P. Huws, W. Gareth Roberts, John Wyn Williams, Owain Williams, W.J. Chorlton, Kenneth P. Hughes, Bob Parry a Eric Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd), Jim Woodcock (Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn), Gareth Jones (Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr, Cyngor Gwynedd), Nia Haf Davies (Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd) a Rhodri Owen (Swyddog Polisi a Pherfformiad, Cyngor Gwynedd)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd W. Gareth Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor am weddill 2010-2011.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Bob Parry yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am weddill 2010-2011.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Arwel Pierce

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. SEFYDLU PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD A CHYTUNO EI AELODAETH**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd a nodai wybodaeth am gylch gorchwyl Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r bwriad o'i sefydlu fel gweithgor o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

(b) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

(i) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd yr Uwch Gyfreithiwr nad yw'n ofyniad statudol i sefydlu'r Panel. Gweithgor ydyw o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac ni fydd ganddo bwerau o ran gwneud penderfyniadau.

(ii) Awgrymodd aelod y dylai'r Panel, o leiaf am ei gyfarfodydd cychwynnol, gynnwys holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Gellir ail-edrych ar y

trefniant hwn wedi hynny a gwneud newidiadau os oes angen.

(iii) Gofynnodd aelod os, yn hytrach na sefydlu Panel, a ddylai'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyfarfod yn fwy aml? Cafwyd cwestiwn gan aelod arall o ran yr angen am Banel. Nodwyd y byddai'n gwastraffu arian gan fe allai'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wneud y gwaith perthnasol beth bynnag. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd nad oedd yn awyddus i'r Pwyllgor gyfarfod fwy na phum gwaith y flwyddyn gan y byddai hynny yn gostus ac yn drwm o safbwynt weinyddol. Byddai hefyd yn cael effaith ar ba mor hyblyg ellir bod wrth drefnu cyfarfodydd. Er mwyn lleihau costau, gellir trefnu bod nifer penodol o gyfarfodydd y Panel yn cael eu cynnal yr un diwrnod a chyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig fod aelodau yn gallu cael trafodaeth anffurfiol ar faterion penodol cyn iddynt gael eu cyflwyno i Bwyllgor ffurfiol. Gellir trafod materion nad sydd yn aeddfed yn y Panel heb fod y rhain yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Ni fydd mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd y Panel.

(iv) Nododd aelod y byddai problem o ran sefydlu Panel sy'n cynnwys, er enghraifft, 6 aelod (h.y. 3 aelod o'r ddau Awdurdod). Os byddai'n rhaid i aelod ymddiheuro o gyfarfod, yna dim ond dau aelod fyddai'n cynrychioli'r Awdurdod honno ar y Panel. Yn sgil hynny byddai'r hyn a benderfynir yng nghyfarfodydd y Panel yn cael ei herio'n aml gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**PENDERFYNWYD** sefydlu Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn aelodau o'r Panel hwn.

## 7. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT YMGYNGHOROL

(a) Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd o ran fersiwn drafft y Cytundeb Cyflawni ar gyfer ymgynghori arno.

(b) Nododd y Cadeirydd mai templed yw'r gytundeb hon ar gyfer sut y dylid ymgymryd â'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Ychwanegodd Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn y bydd unrhyw faterion penodol a ddaw i'r amlwg yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Gytundeb Cyflawni yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn.

(c) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

(i) Nododd aelod ei bod yn hollbwysig fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn ceisio taclo problemau yn yr economi leol (fel y'u nodir yn y Gytundeb Cyflawni). Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd, mai nod y Cynllun yw rhoi fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer gwella'r sefyllfa yn y dyfodol. Nodwyd pwysigrwydd casglu tystiolaeth ar gyfer gwneud hyn.

(ii) Ar sail y ffaith fod y Gytundeb Cyflawni yn datgan y disgwylir i oddeutu £400,000 gael ei wario ar waith gan ymgynghorwyr allanol yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, nododd aelod y dylid sicrhau fod y briff ar gyfer y gwaith hyn yn datgan yn glir y dylid cwrdd ag anghenion y ddau awdurdod. Nododd Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor

Gwynedd y bydd papurau testun ar gyfer materion penodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ag i'r Panel ar y Cyd. Bydd peth o gynnwys y papurau hyn yn dechnegol ac felly bydd angen mewnbwn gan arbenigwyr. Nodwyd hefyd fod cyfleon i rannu adnoddau staff gydag Awdurdodau Lleol cyfagos (gan ddarparu cyfleon i arbed arian).

(iii) Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd Bennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd na ddylid rhoi gormod o ystyriaeth i deitl y Cynllun Datblygu Lleol h.y. nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn hynod 'leol' ei natur. Er bod nodweddion llawer o ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn yn debyg, bydd rhaid i'r CDLl gydnabod bod rhai amgylchiadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn wahanol i'r rhai hynny mewn mannau eraill yng Nghymru. Nodwyd bod yna hefyd wahaniaethau amlwg o fewn ardal y Cynllun. Byddai angen darparu tystiolaeth er mwyn gallu cyfiawnhau dilyn ymagwedd bolisi wahanol o fewn ardal y Cynllun e.e. rhwng Bangor ac ardaloedd sy'n fwy gwledig eu natur. Nid oes angen fod ofn bod yn flaengar ac i wthio'r ffiniau ond rhaid bod yn ofalus i beidio gwthio'r ffiniau hynny yn rhy bell.

(iv) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd, mai staff presennol o'r ddau awdurdod fydd yn ffurfio'r Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd.

(v) Mewn perthynas â chwestiwn gan aelod o ran faint o arian mae'r ddau awdurdod wedi ei neilltuo ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, nododd Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd nad ydyw paratoi Cynllun o'r fath yn broses rad a'i bod yn debygol o gostio cannoedd o filoedd o bunnoedd i'r ddau awdurdod. Fodd bynnag, wrth gyd-weithio nododd fod yr awdurdodau yn lleihau'r swm o arian y byddai angen ei wario ar baratoi dau gynllun. Tra bydd staff yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd yn gwneud llawer iawn o'r gwaith o baratoi'r Cynllun, bydd angen comisiynu gwaith gan arbenigwyr ar gyfer rhai materion penodol.

(vi) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran amserlen paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, nododd Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd, mai'r amcan ydyw i fabwysiadu'r Cynllun yn 2016. Nododd Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd ei bod yn bwysig cadw at gynnwys y Gytundeb Cyflawni wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Ychwanegodd Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn, fod grant bychan yn cael ei gynnig gan Lywodraeth y Cynulliad os yn cadw at yr amserlen a nodwyd.

(vii) Gofynnodd aelod beth oedd y berthynas rhwng y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd â Bwrdd Prosiect y Cynllun Datblygu Lleol? Nododd Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn, fod y Bwrdd Prosiect (h.y. swyddogion penodol o'r ddau awdurdod) yn gor-edrych y broses o baratoi'r Cynllun e.e. o ran sicrhau y glynir at yr amserlen. Ni fydd y Bwrdd Prosiect yn gwneud unrhyw benderfyniadau o ran cynnwys y Cynllun.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Gytundeb Cyflawni drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) ac i Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn) i wneud man newidiadau cyn rhyddhau'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 8. YR UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD – SEFYLLFA DDIWEDDARAF

(a) Cyflwynwyd adroddiad ar lafar gan Reolwr Gwasanaeth Amgylcheddol,

Cyngor Gwynedd o'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd.

(b) Nododd Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd y bydd yr Uned Bolisi Cynllunio ar Y Cyd yn gweithredu'n ffurfiol o swyddfa yn Neuadd y Dref, Bangor erbyn dechrau mis Mai, 2011. Tra bod cyd-weithio wedi digwydd ers beth amser ar lefel swyddogion a gwleidyddion, mae creu'r Uned yn ffurfioli'r drefn hon.

(c) Tra mai paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd fydd prif waith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd, fod iddo rôl ehangach na hyn e.e. o ran darparu cyngor ar faterion polisi cynllunio ar ran y ddau awdurdod.

(ch) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

(i) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd, y gall y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wneud argymelliadau ar gyfer cynnwys y Gytundeb Cyflawni (e.e. wedi ystyried y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori), ond mai Cynghorau Llawn Gwynedd ag Ynys Môn fydd yn cytuno i'w gynnwys terfynol.

(ii) Nododd y Cadeirydd ei ddymuniad fod staff yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd yn ymuno a'i gilydd i weithredu o un swyddfa mor fuan â phosib.

**PENDERFYNWYD** derbyn y wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 am a daeth i ben am 11.10 am